



TGAU – **NEWYDD**

3010N10-1



W17-3010N10-1

LLENYDDIAETH GYMRAEG

UNED 1: Barddoniaeth

HAEN SYLFAENOL

DYDD GWENER, 13 IONAWR 2017 – BORE

1 awr 15 munud

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Llyfryn ateb pinc 16 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Un cwestiwn gorfodol ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

1. Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
Yn y cerddi, mae'r beirdd yn rhoi darlun o berthynas rhwng bachgen a merch i ni.
Cymharwch y ddwy gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** neu'n **wahanol**.

Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
 - Pa fath o ddarlun o **berthynas** mae'r ddau fardd yn ei roi ni?
 - Beth mae'r cerddi'n ei ddweud amdanom ni fel pobl?
 - Ydy hi'n well siarad dros y cyfrifiadur neu wyneb yn wyneb?
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd arddull/mesur** a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

Y Ferch wrth y bar yng Nghlwb Ifor

Yn fan hyn, aeafau'n ôl,
 yn ddifaddau o feddwol,
 fe'i gwelais; estynnais stôl.

Ordrais beint ar draws y bar
 a'i gwyllo, yn llawn galar,
 yn ei sgert trwy'r mwg sigâr.

Yn ei llygaid tanbaid hi
 roedd 'na gefnfor o stori,
 a hyder a direidi

yn eu llawnder i'n herio,
 trwy ryw wyrth, y ddi ein tro
 ond a dal i'w lled-wyllo...

Ym mrad yr edrychiadau,
 yn sŵn ein dawns ni ein dau,
 am ei swyn mi es innau

yn rhy ddedwydd freuddwydiol,
 yn ddifaddau o feddwol,
 yn fan hyn, aeafau'n ôl.

Rhys Iorwerth

Cysylltu

Er mynd i'r un ysgol, er byw'n yr un dre',
 rydym yn rhannu ein cusanau dros y we.

Mae hi'n byw tua chwarter awr lawr y lôn,
 ond rydym yn siarad â'n gilydd dros linell y ffôn.

Yn ôl ei brawddegau sy'n llenwi fy sgrîn
 'dyw hi byth yn siomedig, 'dyw hi byth yn *flin.

Pob tro mae hi'n chwerthin mae'n gwenu fel hyn :-)
 'sdim raid iddi fflachio ei dannedd gwyn, gwyn.

Er bod yn ei chwmni bob nos am ddwy awr,
 er siarad a siarad, mae yna bellter mawr.

Meirion MacIntyre Huws

**yn flin - yn grac (yn y De)*

DIWEDD Y PAPUR